# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 22.10.14

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, Mair Rowlands.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mrs Eirian Bradley-Roberts (Yr Eglwys Gatholig).

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr John Blake (Clerc CYSAG dros dro) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**GwE:** Miss Bethan James (Arweinydd Sustem GwE)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Llywarch Bowen Jones, Mr Noel Dyer (UCAC) a Mrs Alwen Watkin (ASCL).

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths.

## 2. GAIR O GROESO

Croesawyd:

(i) Y Cyng. Mair Rowlands i'w chyfarfod cyntaf o CYSAG a'r olaf gan ei bod wedi ei phenodi i Gabinet y Cyngor – llongyfarchwyd hi a dymunwyd yn dda iddi.
(ii) Mr John Blake i'r cyfarfod yn ei swyddogaeth fel Clerc Dros Dro i CYSAG Gwynedd yn dilyn ymddeoliad Mr Ken Robinson

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2014 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2013-14

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2013-14, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

**(A)** Eglurodd Miss Bethan James mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol ydoedd crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd gan CYSAG dros y flwyddyn flaenorol a phwysigrwydd bod yr argymhellion o fewn yr adroddiad yn cael eu dwyn i sylw'r Cabinet. Atgoffwyd Aelodau o'r hyn a gytunwyd yn flaenorol sef enwi'r ysgolion sydd yn cyflwyno hunan arfarniadau yn ogystal â'r ysgolion hynny sydd ddim. Tynnwyd sylw ymhellach at brif gyfrifoldeb CYSAG sef i graffu hunan arfarniadau ysgolion ac fe welwyd bod ansawdd yr hunan arfarniadau wedi gwella dros y flwyddyn diwethaf. Cyflwynir canllawiau i ysgolion ar gyfer cyflwyno hunan arfarniadau ac er bod ceisiadau a sawl galwad ffon gan Glerc CYSAG i ysgolion eu cyflwyno efallai bod yn rhaid ystyried i'r dyfodol a phenderfynu ar strwythur pendant o gyflawni hyn. Yn wyneb newidiadau yn fframwaith arolygu ESTYN gall ysgolion dderbyn 3 i 4 wythos o rybudd eu bod yn cael eu harolygu ac felly'n ofynnol i CYSAG benderfynu ar amserlen a threfn hunan arfarnu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau ac i hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Awgrymwyd gwahodd un ysgol gynradd / un uwchradd i rannu profiadau / arferion da gydag CYSAG er mwyn dysgu ganddynt ac i sicrhau bod CYSAG yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Ychwanegodd Miss Bethan James y byddai modd iddi gynnal cymorthfeydd o awr i ysgolion unwaith y tymor pe byddai hynny'n ddymuniad gan swyddogion yr awdurdod er mwyn hwyluso trefniadau i ddatblygu'r hunan arfarniadau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ar yr uchod, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- Y byddai derbyn cyflwyniad gan ysgolion yn dilyn arolygiad o fudd i CYSAG fel eu bod yn ymwybodol o sut bydd ysgolion yn ymateb i gamau gweithredu
- Pwysigrwydd i beidio dyblygu gwaith i athrawon o ystyried bod pob Pennaeth Adran yn cwblhau patrymlun ar lein o ran canlyniadau CA3/4 ac a fyddai modd cyplysu'r wybodaeth ar gyfer hunan arfarniadau CYSAG
- A fyddai modd hwyluso cyfleon i rannu arferion da mewn Addysg Grefyddol drwy drefniadau partneriaeth ysgol i ysgol
- Pryder ynglyn â chymal olaf yr argymhellion ar dudalen 9 o'r adroddiad sef "gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o CYSAG"

Tynnodd Miss Bethan James sylw at yr argymhellion a ymddangosai ar dudalen 14 o'r adroddiad blynyddol sy'n cyfeirio at awgrym i Aelodau CYSAG ymweld ag ysgolion i fynychu sesiynau addoli ar y cyd ac i ymweld ag Adrannau Addysg Grefyddol i drafod gyda'r cydlynydd. Croesawyd yr awgrym gan sawl Aelod a bod ymateb positif iawn gan CYSAG Ynys Mon sydd eisoes wedi mabwysiadu'r drefn o ysgolion i wahodd Aelodau CYSAG i fynychu gwasanaethau addoli ar y cyd.

Mewn ymateb i'r awgrym o ffurfioli hunan asesiadau a gwahodd Aelodau o CYSAG i fynychu gwasanaethau addoli ar y cyd, nodwyd pryder gan bod sefyllfa ysgolion Uwchradd yn hollol wahanol i'r sector cynradd oherwydd dwy agwedd h.y. bod Addysg Grefyddol yn cael ei ystyried fel pwnc ar yr un llaw ac addoli ar y cyd fel gwasanaeth ac nid y cydlynydd Addysg Grefyddol fyddai'n gyfrifol am yr agwedd o wasanaeth. Ychwanegodd Miss Bethan James bod gofyn statudol ynglyn ag addoli ar y cyd a bod gwasanaethau yn amrywio mewn ysgolion - rhai yn eu cynnal yn dorfol a dyddiol a rhai eraill mewn achlysuron gwahanol mewn dosbarthiadau, ac y gall ddigwydd unrhyw amser

o'r dydd. Pwysleiswyd pan fo Aelodau CYSAG yn mynychu ar wahoddiad ysgolion nid oes disgwyliad i ysgolion baratoi unrhyw beth penodol ar eu cyfer.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglyn â faint o ysgolion sy'n gwahodd Gweinidogion i gynnal gwasanaethau, esboniwyd bod hyn yn ddibynnol ar Benaethiaid a hefyd y Gweinidogion. Ceir ardaloedd lle mae Gweinidigion yn cynnal gwasanaethau yn rheolaidd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2013/14.**

**(b) Cymeradwyo'r argymhellion gynigwyd yn yr adroddiad gan gymryd sylw o'r pryder amlygwyd ynglyn a chymal olaf yr argymhellion ar dudalen 9 o'r adroddiad.**

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd Clerc CYSAG yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion a gwelwyd bod 5 ysgol cynradd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod cyfnod tymor Haf 2014. Cyfeiriwyd ymhellach at ddyfyniadau o fewn adroddiadau ESTYN sy'n cyfeirio at Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol.

(b) Tynnwyd sylw yn y cyfieithiad Saesneg bod adroddiadau hunan arfarniadau Llanbedrog a Thalsarnau wedi eu derbyn, er nad oeddynt wedi eu ticio ar y daflen.

(c) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod gan gyfeirio at y tri cwestiwn allweddol sef:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?
3. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

(i) **Ysgol Llanbedrog**

Noda'r ysgol i'r materion isod gael sylw yn gysylltiol â'r cwestiynau allweddol uchod:

1. Parhau i ddatblygu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y plant o grefyddau ac arferion crefyddol
2. Cyflwyno mwy o waith rhifedd drwy Addysg Grefyddol
   Trefnu mwy o ymweliadau e.e. i weld addoldai amrywiol a Choleg y Bala
3. Plant i gymeryd mwy o ran mewn addoliad dyddiol e.e. creu gweddiau byr-fyfyr, perfformio dramodig ac ati

(ii) **Ysgol Crud y Werin**

Noda'r ysgol i'r materion isod gael sylw yn gysylltiol â'r 3 cwestiwn allweddol:

1. Cyfnod Sylfaen
   - Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen
   - Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen

CA2

- Sicrhau bod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grwp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol

2. Cyfnod Sylfaen
    - Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau
    - Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
    - Parhau i annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl

    CA2
    - Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth
    - Parhau i osod Meini Prawf Llwyddiant a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu
    - Angen datblygu cysylltiadau a chymunedau crefyddol pellach e.e. ymweld â mosg
3. Efelychu yr arferion rhagorol ymhob gwasanaeth
    Sicrhau fod Addoli ar y cyd dosbarth / adran (CS) yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion
    Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Addoli ar y cyd.

(iii) **Ysgol Edern**

Noda'r ysgol i'r materion isod gael sylw yn gysylltiol â'r cwestiynau allweddol:

1. Parhau i gyflwyno agweddau asesu ar gyfer dysgu yn y gwersi
2. Sicrhau y cyllid a'r arbenigedd presennol er mwyn parhau. Ddarpariaeth dda yma, angen ei gadw
    Parhau i gyflwyno agweddau o AaGD yn y gwersi yn unol â CDY yr ysgol
3. Yn dilyn arfarniad gan y plant mae'r disgyblion hynaf eisiau mwy o ran yn y gwasanaethau (hyn wedi dechrau ers Pasg 2014)
    Roedd nifer o'r plant yn meddwl bod y gwasanaeth torfol yn para' rhy hir (30%) – hyn wedi ei addasu ers Pasg 2014
    Creu arddangosfeydd o ddathlu a llwyddiant yn y neuadd

(iv) **Ysgol Talsarnau**

Noda'r ysgol i'r materion isod gael sylw yn gysylltiol â'r cwestiynau allweddol:

1. Datblygu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion hynaf CA2 ysgrifennu'n estynedig er mwyn sicrhau dyfnder yn eu dealltwriaeth
2. Sicrhau bod cyfleoedd digonol ar gyfer trafod crefyddau eraill ar wahan i Gristnogaeth
3. Sicrhau mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan a chyfrannu mewn gwasanaethau ysgol gyfan.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau.**

## 7. ASESIADAU ATHRAWON A CHANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL YN Y SECTOR UWCHRADD

(a) Cyflwynwyd gan Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE, asesiadau gan Adrannau am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion gan ddefnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo.

(b) Nodwyd drwy'r data uchod bod modd i ysgolion Gwynedd gymharu hefo perfformiad Ysgolion Mon a Chonwy.

(c) O'r asesiadau y prif negeseuon a welwyd ydoedd:

- Cyflawnodd 94.2% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 0.5% ers 2013.
- Cyfawnodd 61.9% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol, sy'n 6.6% llai nag yn 2013.
- Cyflawnodd 21.1% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 7+ mewn Addysg Grefyddol, sy'n 3.8% yn llai nag 2013.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 5 ysgol.
- Roedd 4 disgybl yng Ngwynedd yn deilwng o Lefel 8 mewn Addysg Grefyddol.

(ch) Nodwyd gan Aelod mewn ymateb i'r data uchod, nad oedd y sustemau data yn hawdd ac yn amrywio gyda rhai lefelau yn cael eu mewnbynnu ar ffurf wahanol.

(d) O safbwynt canlyniadau TGAU Addysg Grefyddol, nodwyd bod y canlyniadau yn dda a bwriedir ail-ymweld â'r data yn ystod y tymor nesaf.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG 2014-15 DRAFFT

(a) Cyflwynwyd gynllun gweithredu drafft ar gyfer CYSAG Gwynedd am y flwyddyn 2014-15 ac eglurwyd bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i phob CYSAG yng Nghymru gyflwyno adroddiadau blynyddol. Un o'r argymhellion ydoedd y dylai CYSAGau hunan arfarnu eu hunain gan ofyn i ba raddau y maent yn cael effaith ar:

1. Datblygu Arweinyddiaeth dda ym maes Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
2. Cau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn TGAU
3. Diweddaru gwybodaeth athrawon Addysg Grefyddol, e.e. canllawiau Llywodraeth Cymru, ESTYN
4. Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd

(b) O fewn y cynllun gweithredu gwelwyd camau ymarferol i'w cymryd a gofynnwyd i Aelodau drafod mewn parau y deilliannau ac fe nodwyd y pwyntiau canlynol i gydfynd â'r materon uchod:

1. Yr angen i rannu arferion da mewn cyfarfodydd CYSAG gan wahodd ysgolion i gyflwyno eu harferion gorau
2. Bod Athrawon Addysg Grefyddol yn teimlo'n ynysig ac ddim yn cael cyfleoedd ar gyrsiau / hyfforddiant fel yn y gorffenol; ddim yn ymwybodol o newidiadau; achosion lle na ellir rhannu arferion da oherwydd nad oes gefaill Addysg Grefyddol ar gael
3. Bod cymaint o E-byst yn cyrraedd ysgolion; llawer o newidiadau gan ESTYN

4. Pwysigrwydd i ymweld ag ysgolion i weld ansawdd yr addoli ar y cyd ac i Aelodau CYSAG feddu gwell dealltwriaeth

(c) Nodwyd y byddir yn cyflwyno'r cynllun gweithredu i bob cyfarfod i'r dyfodol fel bo modd dod i farn ar effeithiolrwydd Aelodau CYSAG.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cynllun gweithredu gan sicrhau ei gyflwyno i bob cyfarfod o CYSAG i'r dyfodol.**

## 9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2014 yn Llandrindod.

Yn deillio o'r cofnodion:

(a) Cyfeiriwyd mai siomedig oedd y gynrychiolaeth yn y cyfarfod;
(b) Nad oedd Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yn gweithredu yng Nghymru bellach;
(c) Bod angen i Gyngor Gwynedd ail-ymaelodi a thalu tâl aelodaeth yn unol a'r drefn arferol;
(d) Etholwyd Vicky Thomas a Gill Vaisey yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Bod Cyngor Gwynedd yn ail-ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac yn talu'r tâl aelodaeth yn unol â'r drefn arferol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.50 pm

**CADEIRYDD**